## ATODLEN 14

Erthygl 39(3)

Mesurau arbennig ar gyfer rheoli poblogaethau Ewropeaidd o Lyngyr tatws

### Dehongli a chymhwyso Atodlen 14

**1.** Mae'r Atodlen hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru, yn dilyn ymchwiliad arbennig at ddibenion Erthygl 4 o Gyfarwyddeb 2007/33/EC neu arolwg swyddogol at ddibenion Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb honno, yn cadarnhau bod cae wedi ei heigio â phoblogaeth Ewropeaidd o Lyngyr tatws.

**2.** Yn yr Atodlen hon, ystyr "cae sydd wedi ei ddarnodi" ("*demarcated field*") yw cae y mae hysbysiad a gyflwynwyd o dan baragraff 3 mewn grym mewn cysylltiad ag ef.

### Darnodi'r cae

**3.** Rhaid i arolygydd gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r meddiannydd neu berson arall â gofal am y cae sydd—

(a) yn pennu'r cae y mae'r hysbysiad yn gymwys iddo; a

(b) yn darnodi ffiniau'r cae hwnnw.

**4.** Ni chaniateir tynnu'r hysbysiad yn ôl hyd nes caiff ei gadarnhau, yn unol â'r mesurau ail-samplu a phrofi a nodir yn Adran III(C) o Atodiad III i Gyfarwyddeb 2007/33/EC, nad yw Llyngyr tatws yn bresennol yn y cae mwyach.

### Gwaharddiad ar blannu tatws

**5.** Oni chaiff ei awdurdodi i wneud hynny gan arolygydd, ni chaiff unrhyw berson—

(a) plannu mewn cae sydd wedi ei ddarnodi unrhyw datws y bwriedir eu defnyddio i gynhyrchu tatws hadyd; neu

(b) plannu neu storio mewn cae sydd wedi ei ddarnodi unrhyw blanhigyn a restrir yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 2007/33/EC a fwriedir ar gyfer ei blannu.

**6.** Caiff arolygydd awdurdodi plannu mewn cae sydd wedi ei ddarnodi unrhyw blanhigyn a restrir ym mhwynt 2 o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2007/33/EC.

**7.** Rhaid i awdurdodiad o dan baragraff 6 fod drwy hysbysiad a rhaid iddo gynnwys y mesurau a nodir yn Adran III(A) o Atodiad III i Gyfarwyddeb 2007/33/EC.

### Atal Llyngyr tatws

**8.** Ni chaiff unrhyw berson blannu mewn cae sydd wedi ei ddarnodi unrhyw datws nad ydynt wedi eu bwriadu ar gyfer cynhyrchu tatws hadyd oni bai bod y person hwnnw wedi cymryd pob cam rhesymol i atal Llyngyr tatws yn y cae hwnnw.

### Rheolaethau ar datws hadyd halogedig etc.

**9.** Ni chaiff unrhyw berson blannu unrhyw datws hadyd nac unrhyw blanhigion a restrir ym mhwynt 1 o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2007/33/EC sy'n dod o gae sydd wedi ei ddarnodi, neu sydd wedi bod mewn cysylltiad â phridd o gae sydd wedi ei ddarnodi, oni bai bod ei fod wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan arolygydd.

**10.** Rhaid i awdurdodiad o dan baragraff 9 fod drwy hysbysiad a rhaid iddo gynnwys y mesurau y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i ddadhalogi'r tatws hadyd hynny neu'r planhigion hynny.

**Rheolaethau ar fylbiau halogedig etc.**

**11.** Ni chaiff unrhyw berson blannu unrhyw blanhigion a restrir ym mhwynt 2 o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2007/33/EC sy'n dod o gae sydd wedi ei ddarnodi, neu sydd wedi bod mewn cysylltiad â phridd o gae sydd wedi ei ddarnodi, oni bai ei fod wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan arolygydd.

**12.** Rhaid i awdurdodiad o dan baragraff 11 fod drwy hysbysiad, a rhaid iddo gynnwys y mesurau a nodir yn Adran III(A) o Atodiad III i'r Gyfarwyddeb honno.